**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Mawrth 2010**

## ADOLYGIAD O'R PEIRIANNAU ARBENNIG

**Adroddiad gan Gareth W Griffiths, Uwch Reolwr Gweithrediadau**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y datblygiadau yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn 2006-07 i adolygu math, lleoliad ac effeithiolrwydd yr ystod o Beiriannau Arbennig a ddefnyddir gan y Gwasanaeth.

## Cefndir

2 Bellach, mae'r cynllun tair blynedd, a ddaeth yn dilyn yr Adolygiad, wedi cyrraedd y cam lle mae nifer sylweddol o fanteision yn cael eu gwireddu. O ganlyniad, bydd y manteision hyn yn gwella'r effeithiolrwydd a'r modd y mae gwasanaeth yr ochr weithredol yn cael ei ddarparu i gymunedau, busnesau ac isadeiledd Gogledd Cymru, ac yn rhoi systemau gwaith mwy cadarn a datblygedig i ddiffoddwyr tân y Gwasanaeth.

## Gwybodaeth

3 O ganlyniad i'r offer gwell sydd bellach ar gael ar y Pympiau Achub, mae'r pedwar Tendr Argyfwng, a ddefnyddid yn bennaf ar gyfer achub mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, wedi cael eu tynnu o'u gwaith. Mae dau o'r cerbydau hyn wedi cael eu haddasu a'u hailgyflwyno fel Unedau Achub Technegol, un yng Nghaernarfon a'r llall yn Wrecsam. Pwrpas y cerbydau hyn fydd mynd at ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â cherbydau nwyddau mawrion, trenau ac awyrennau, lle y gallai fod angen offer achub a goleuo cryf.

4 Mae'r Tendr Argyfwng ym Mae Colwyn wedi cael ei addasu a'i ailgyflwyno fel Uned Achub Arbennig, ac yn canolbwyntio ar Achub Anifeiliaid Mawr ac Achub â Rhaff. Mae'r staff yn yr orsaf honno wedi cael hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau bod sgiliau arbenigol yn cael datblygu er mwyn delio â'r mathau hynny o ddigwyddiadau.

5 Bydd y Tendr Argyfwng arall yn cael ei droi'n Uned Lles, ac yn cael ei anfon at ystod o digwyddiadau, o wahanol fathau a hyd amseryddol, er mwyn sicrhau bod gan staff gweithredol gyfleusterau digonol ar gyfer newid, toiled ac ymolchi. Bydd y ddarpariaeth hon yn gwella'r trefniadau ar gyfer iechyd a lles y staff.

6 Yn ystod 2007-08, penderfynodd yr Awdurdod gynyddu nifer y Peiriannau Deuddiben (sef cerbydau bychain ar gyfer diffodd tanau, sy'n gallu delio â thanau mewn llefydd caeedig (*compartment fires*) mewn eiddo lle mae cyfyngiad ar fynediad, yn ogystal â thanau oddi ar y ffordd ar rostir a gweundir) o'r pedwar cerbyd sydd eisoes yn eu lle, i gyfanswm o ddeg.

7 Yn 2012, mae un newydd i fod i ddod yn lle un o'r Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr. Ar hyn o bryd, mae pedwar ar waith, sef ym Mangor, Llandudno, y Rhyl a Wrecsam. Maent yn cael eu defnyddio fel esgynlawr i weithio oddi arno ac i gludo dŵr i danau mawr o lefel uchel.

## Casgliad

8 Mae'r manteision i'r ochr weithredol o ganlyniad i'r Adolygiad o'r Peiriannau Arbennig a'r buddsoddiad a wnaed wedi hynny, yn sylweddol. Mae'r Adolygiad wedi rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa lle gellir bod yn sicr bod modd cwrdd â'r heriau a ddaw oherwydd amgylchedd sy'n heriol ac yn cynyddol newid.

## Argymhelliad

9 Bod yr Aelodau'n nodi'r datblygiadau a wnaed mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Peiriannau Arbennig.